

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Tal y Bont  
ar nos Iau 14 Mehefin, 2018 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Margaret Fernley a David Jones

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2018.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Arriva**-adroddwyd bod rhaglen fyr wedi bod ar Radio BBC Taro'r Post am y gwasanaeth bws sydd wedi diflannu. Y Cyng. Megan Tomos wrthi'n gwneud ymholiadau pellach.

**Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'**- dal i ddisgwyl Cyngor Gwynedd ddod i ymgymryd a'r gwaith. Pawb yn siomedig gyda'r oedi. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi am ddiweddariad gan Cyngor Gwynedd.

**Sêl wyna**-adroddwyd bod y siec wedi ei dderbyn ar gyfer yr ŵyn.

**Cae chwarae Tal y Bont**- angen gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i drefnu cyfarfod cyhoeddus ar gyfer hybu defnydd o'r cae chwarae. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn torri a chasglu'r gwair.

**Tyllau yn y ffordd**- adroddwyd bod twll arall wedi ymddangos ar Lôn Ddŵr, ac bod y Lôn ger Bronydd dal angen ei lanhau. Hefyd mae twll arall wedi ymddangos yn Bryn Eglwys. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi am ddiweddariad.

**Rhwystrau cyflymder Tal y Bont-** angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

**Cebl teleffon-** adroddwyd bod cebl wedi disgyn ar hyd llwybr cyhoeddus rhwng Tan y Garth a Gerlan ac ei fod yn berygl i gerddwyr. Adroddwyd bod y cebl dal i fod ar hyd y llwybr. Y Clerc i siarad gyda BT unwaith eto.

## **5. Penodi Is-gadeirydd**

Etholwyd y Cyng. Geraint Hughes fel Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2018-19.

## **6. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai (Mai)	£25.00
Yswiriant y Cyngor	£417.60
Torri gwair Talybont	£170.40

## **7. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd-** llythyr gan pwyllgor Bwrllwm Haf-cais am rodd o £50 tuag at darian a medalau i'r digwyddiad. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gyfrannu.

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru-ymchwiliad i amrywiaeth ym maes llywodraeth leol. Y Clerc i lenwi'r arolwg ar-lein. .

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Cynllun Trydan Dŵr Bach Afon Bodesi-ymgyngoriad cyn gwneud cais cynllunio. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.

**Cyflwynwyd-** llythyr gan I Doyle-cais am hawliau pori. Penderfynwyd nad yw'n bosib rhoi hawliau pori iddo gan bod y Rheolau yn nodi bod rhaid i'r porwr fyw yn y plwy i gael hawliau. Y Clerc i anfon llythyr i egluro.

## **8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

**Partneriaeth Ogwen-**derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig cryno gan y Bartneriaeth.

Penderfynwyd ethol y Cyng. Geraint Hughes, Margaret Fernley a Myfanwy Jones ar Is-bwyllgor i drafod cae chwarae Tal y Bont gyda Partneriaeth Ogwen.

## **9. Ffurflen Flynyddol**

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

## **10.Penderfyniadau Cynllunio:**

**NP3/21/42/B**

Marlow, Llanllechid

Dymchwel rhan o'r estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad unllawr mwy.

**Penderfyniad-** Dim penderfyniad hyd yn hyn.

## **Ceisiadau Cynllunio:**

**C18/0395/21/LL**

Spinnies, Aber Ogwen, Bangor

Codi cuddfan adar a llwybr troed

**Penderfyniad-** Dim gwrthwynebiad, ond mae angen glanhau'r ffordd a'r ymylon ar gyfer creu mannau pasio priodol, gan bod y lefel o draffig ar hyn o bryd yn broblem. Y

Cyng. Dafydd Meurig am fynd lawr i'r safle gyda swyddog o Gyngor Gwynedd i gyfarfod preswylwyr cyfagos.

### **11. Materion Brys**

**Eglwys Llan**-adroddwyd bod y Parch. John Matthews wedi derbyn arian ar gyfer trin y coed ywen ar y safle. Penderfynwyd bod angen trin y gordyfiant yn y fynwent unwaith eto.

**Llwybrau cyhoeddus**- y Cyng. Megan Tomos yn holi os oedd hi'n amser trin y llwybrau cyhoeddus. Y Clerc i holi y Cyng. Margaret Fernley.

**Clwb Hanes Rachub**- digwyddiad gan y clwb penwythnos nesaf. Y Clerc i holi am fwy o wybodaeth.

**Cebl teleffon**- cebl ar y wal wrth Mignant. Y Clerc i hysbysu BT.

**Llais Ogwan**- penderfynwyd bydd hysbyseb i fynd i Llais Ogwan am y sêl wyna, unwaith bydd dyddiad wedi ei benderfynu.